# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Cyfrifon Blynyddol

---

## 2012-13

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **SYLWADAU RHEOLI** | **2** |
| **ADRODDIAD TALIADAU** | **14** |
| **DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU** | **22** |
| **DATGANIAD LLYWODRAETHU** | **23** |
| **DATGANIAD GWARIANT NET CYNHWYSFAWR** | **32** |
| **DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL** | **33** |
| **DATGANIAD LLIF ARIAN** | **35** |
| **DATGANIAD NEWID YN ECWITI TRETHDALWYR** | **36** |
| **NODIADAU I'R CYFRIFON** | **37** |
| **TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU** | **50** |

# SYLWADAU RHEOLI

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, Atodlen 1 Paragraff 10 (1) (b).

## Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru dan Adran 1 y Ddeddf. Dechreuais yn fy swydd fel Comisiynydd ar 4 Mehefin 2012.

Dyma swyddogaethau'r Comisiynydd:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Caf fy ariannu gan Weinidogion Cymru ond rwyf yn gweithredu'n annibynnol arnynt. Rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) am y ffordd rwyf yn defnyddio'r adnoddau sy'n cael eu rhoi i mi. Yn 2012-13 rhoddwyd cyllid o £1.732 miliwn (2011-1212; £1.747 miliwn) i mi.

## Cenhadaeth fy sefydliad

Pan ddechreuais yn fy swydd ym mis Mehefin 2012, addewais y byddwn yn hyrwyddwr cryf dros bobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll drostynt a siarad ar eu rhan. Yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd o bwys iddyn nhw sy'n llywio fy ngwaith ac mae eu llais wrth galon popeth rwyf yn ei wneud.

Yn rhinwedd fy swydd fel y Comisiynydd newydd, yr wyf wedi pennu'r blaenoriaethau canlynol:

1. Adeiladu ar ymgysylltiad â phobl hŷn ledled Cymru a sicrhau fy mod yn siarad â mwy o bobl hŷn nag erioed o'r blaen ac yn gwrando ar fwy ohonynt nag erioed o'r blaen, gan gynnwys y rheiny na chlywir eu llais yn aml. Dechreuodd fy Sioe Deithiol Ymgysylltu newydd ar fy niwrnod cyntaf yn y swydd a bydd hon yn parhau dros y pedair blynedd nesaf.

2. Datblygu a chyhoeddi rhaglen waith ddylanwadol ar gyfer y Comisiwn, sy’n datgan yn glir beth rwyf yn bwriadu ei wneud. Cyhoeddwyd hon ym mis Medi 2012 ac mae ar gael ar fy ngwefan.

3. Adeiladu a datblygu ymhellach bartneriaethau effeithiol gydag amrywiaeth o sefydliadau yn y sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol ac yn y Trydydd sector, gyda’r bwriad o gysoni ein gwaith, rhannu ein hadnoddau, ein gwybodaeth a’n sgiliau, a sefydlu consensws cryf yn seiliedig ar yr hyn rydyn ni i gyd am ei gyflawni.

4. Codi proffil materion sydd o bwys i bobl hŷn, gyda ffocws penodol ar fynd i’r afael â’r stereoteipiau negyddol o bobl hŷn yn y cyfryngau.

5. Llunio a chyhoeddi er trafodaeth fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu pedair blynedd newydd sy’n nodi'r hyn rwyf i’n ei weld fel y prif heriau i bob un ohonom yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ynghyd â fy mlaenoriaethau i fy hun ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Fy swyddogaeth i yw sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy’n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, nad ydynt yn teimlo’n ynysig na bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, a’u bod yn cael y gefnogaeth a’r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Rwyf am i Gymru fod yn lle da i heneiddio, nid dim ond i ambell un, ond i bawb.

### Adolygiad o weithgareddau 2012-13

Mae crynodeb o uchafbwyntiau fy ngwaith yn ystod 2012-13 isod ac maent wedi’u gosod yn erbyn amcanion Cynllun Strategol 2010-13. Mae gwybodaeth ategol ychwanegol am effaith a chyrhaeddiad y sefydliad ar gael ar fy ngwefan, sef www.olderpeoplewales.com ac yn fy Adroddiad ar Effaith a Chyrhaeddiad cyhoeddedig.

### Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Cyhoeddais adroddiad o’r enw ‘Llais, Dewis a Rheolaeth’ oedd yn cynnwys argymhellion ar ddarparu gwasanaeth eirioli mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Mae'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw wedi'u llunio gyda'r nod o sicrhau bod mwy o bobl hŷn sydd mewn sefyllfa arbennig o fregus yn gallu arfer mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.

Cyflwynais achos cryf i Lywodraeth Cymru ynghylch yr angen i ddiweddaru ei chanllawiau ar gau cartrefi gofal er mwyn rhoi gwell eglurder ac amddiffyniad i bobl hŷn ac i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn y dyfodol yn rhoi ystyriaeth deilwng i hawliau dynol y preswylwyr pan fyddant yn ystyried y posibilrwydd o gau cartrefi gofal neu o symud pobl o gartrefi gofal drwy ymgysylltu ac ymgynghori'n ystyrlon â nhw, darparu gwasanaeth eirioli annibynnol ac asesu effaith unrhyw gamau ar breswylwyr. Byddaf yn cadeirio Grŵp Cymru Gyfan a fydd yn llunio cynigion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Bu i mi gomisiynu a chyhoeddi gwaith ymchwil helaeth oedd yn trin a thrafod chwythu'r chwiban. Ynddo tynnwyd sylw at ba mor anodd y gall hi fod i staff gofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru fynegi pryder ynghylch y ffordd mae pobl hŷn yn cael eu trin. Yn sgil hynny, yr wyf wedi sefydlu Bwrdd Partneriaeth Codi Pryderon sy’n cynnwys arweinwyr uwch, i yrru’r gwaith o newid diwylliant gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol yn ei flaen er mwyn gwneud yn siŵr y gweithredir ar bryderon fel bod modd amddiffyn pobl hŷn rhag niwed ac esgeulustod yn fwy effeithiol.

### Hyrwyddo’r ddarpariaeth o gyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn

Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i fy ngalwad i gryfhau hawliau pobl hŷn drwy lunio Datganiad Hawliau Pobl Hŷn. Bydd y Datganiad Hawliau Pobl Hŷn hwn, y cyntaf o’i fath yn y DU, yn darparu safon a fframwaith clir y gall pobl hŷn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth a’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn ac annibynnol. Mae'r penderfyniad i symud at Ddatganiad yn cael ei gefnogi gan holl bleidiau gwleidyddol y Cynulliad. Mae hwn yn gam pwysig iawn ymlaen a bydd yn darparu disgwyliadau clir ar gyfer y rheiny sy’n gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

### Annog ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.

Cynheliais gynhadledd bwysig ym mis Hydref gyda’r nod o sicrhau gwelliannau o ran rhannu arferion da yng nghyswllt trin pobl hŷn mewn ysbytai a dod â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr cleifion at ei gilydd. Cyhoeddais **“**Gofal gydag Urddas? Flwyddyn yn Ddiweddarach”, sef f’asesiad ffurfiol i o’r camau y mae’r GIG yng Nghymru yn eu cymryd i wella urddas mewn gofal. Yr wyf wedi gofyn am adroddiad pellach gyda’r nod o gyflymu'r newid. Byddaf yn dal Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr sefydliadau’r GIG yn atebol ac, os yw

hynny'n briodol, byddaf yn cynnal adolygiadau pellach ar lefel Bwrdd, ysbyty a ward.

Am y tro cyntaf yng Nghymru, tynnais sylw at brofiadau pobl hŷn oedd yn cael gofal cartref yng Nghymru yn f'adroddiad 'Fy Nghartref, fy Ngofal, Fy Llais'. Roedd yr ymchwil wedi'i seilio ar dros 1,000 o ymatebion i holiaduron gan bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Er bod oddeutu 80% yn dweud eu bod yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y gofal maent yn ei gael, yn achos 20%, sy'n nifer gweddol fawr, mae gofal o ansawdd da yn anghyson, ac, i rai, ddim yn bodoli o gwbl.

Ysgrifennais at bob Awdurdod Lleol nad oedd yn cydymffurfio â'r amserlenni cyfreithiol ar gyfer rhoi cymorth drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn nodi disgwyliadau clir o ran gwelliannau yn y maes hwn a darparu arweiniad ar arfer da. Bu i mi hefyd rannu fy nhystiolaeth ag ymholiad y Cynulliad i Gymhorthion ac Addasiadau.

Cyflwynais ddisgwyliadau clir i Awdurdodau Lleol er mwyn eu cynorthwyo â chau cyfleusterau gofal cymdeithasol preswyl, gan ddarparu fframwaith arferion da oedd â'r nod o sicrhau llais cryf i bobl hŷn ac asesiad effeithiol o effaith newidiadau ar fywydau pobl hŷn.

Rwyf wedi gofyn am dystiolaeth gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol eu bod wedi ystyried effaith newidiadau i wasanaethau ar bobl hŷn a bod ganddynt gynlluniau i roi sylw i'r effaith honno yn ogystal â sicrhau bod newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried a'u cyfleu yn effeithiol.

Rwyf wedi sefydlu Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Dyma'r rhaglen gyntaf o'i math yn y DU sy'n cynnwys partneriaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Age Alliance, Iechyd Cyhoeddus Cymru, OPAN ac eraill. Byddaf yn gyrru camau gweithredu ymlaen yng Nghymru sy'n helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac ansawdd bywyd wrth heneiddio.

Rwyf wedi codi proffil Cymru yn sylweddol drwy hyrwyddo gymaint rydym ni yng Nghymru yn gwerthfawrogi cyfraniad ein pobl hŷn drwy siarad â Gweinidogion Ewrop a chadeirio seremoni cloi'r Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Heneiddio'n Egnïol a Phontio'r Cenedlaethau yng Nghymru. Mae Cymru bellach wedi ennill statws Safle Cyfeirio Ewropeaidd.

## Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Rwyf wedi hybu gwell dealltwriaeth o gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn gyda darparwyr gwasanaethau, Llywodraeth Cymru, a'r Heddlu, gan gynnwys y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu newydd. Bu i mi ddarparu tystiolaeth i wneud yn siŵr y bydd deddfwriaeth newydd sydd yn yr arfaeth yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl hŷn y mae angen eu diogelu rhag niwed fel bod modd iddynt fyw yn rhydd o gam-fanteisio a cham-drin.

Bu i mi roi fy nghefnogaeth frwd i nodau a dyheadau Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwyf hefyd wedi darparu tystiolaeth fanwl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddaf yn darparu tystiolaeth bellach ac yn parhau i bwyso am ddiwygiadau ychwanegol, gan gynnwys:

- Ymrwymiad cryfach i sicrhau llais a rheolaeth, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol;
- Egwyddorion cliriach yn y bil sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a hawliau dynol;
- Meini prawf cymhwysedd a chodi tâl;
- Diogelu pobl hŷn; a
- Diffiniad cliriach o ystyr 'lles'.

## Galluogi cyflawni'r amcanion a restrir uchod mewn ffyrdd sy'n briodol a rheolaidd, yn ddoeth ac yn ddarbodus, gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau a chanfod a rheoli risgiau.

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddais gynigion i ailstrwythuro a daeth y rhain i rym ar 1 Ebrill 2013. Roedd pum nod clir i'r ailstrwythuro, sef:

i. sicrhau strwythur rheoli sy'n pennu cyfeiriad strategol cryf a llinellau atebolrwydd clir ac sy'n gwella perfformiad y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

ii. sicrhau bod gan y sefydliad strwythur syml ac effeithlon sy'n defnyddio adnoddau, ac yn eu dyrannu, yn y modd mwyaf effeithiol posib, gan adlewyrchu cymesuredd blaenoriaethau priodol y sefydliad.

iii. sicrhau bod pob rôl, cyfrifoldeb a gweithgarwch yn glynu'n gaeth wrth flaenoriaethau busnes a thargedau gweithredol cyflawnadwy'r

sefydliad a bod busnes y sefydliad yn cael ei gyflawni o fewn fframwaith rheoli perfformiad cadarn ac effeithiol.

iv. sicrhau bod gan y sefydliad weithlu hyblyg, deinamig sy'n llawn cymhelliant ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, y priodoleddau a'r cymwyseddau priodol i gyflawni amcanion busnes cytunedig y sefydliad a bod y rhain yn cael eu cyfatebu i gymwyseddau, cyfrifoldebau a rolau.

v. sicrhau bod y sefydliad, nid yn unig yn gallu cyflawni'r rhaglen waith a gyhoeddwyd ganddo ond bod ganddo hefyd y cymwyseddau a'r sgiliau sefydliadol angenrheidiol i addasu i amgylchedd allanol sy'n brysur newid, a hynny gan greu cyn lleied â phosib o anhrefn.

Bydd canlyniad yr ailstrwythuro yn golygu y byddaf yn gallu gweithio'n fwy effeithiol ac yn gallu rhoi tystiolaeth well o fy effaith (enillion ar fuddsoddiad) drwy ddangos fy mod wedi defnyddio'r adnoddau oedd ar gael i mi mewn modd darbodus ac effeithiol.

Rwyf hefyd wedi diwygio ac atgyfnerthu fy nhrefniadau ar gyfer rheoli risg drwy gynnal asesiad o'r newydd o'r risgiau a'r cyfleoedd mae'r sefydliad yn eu hwynebu; diweddaru fformat y gofrestr risg a'r prosesau mewnol ar gyfer canfod a rheoli risg.

### Ymgysylltu a chyfathrebu

Ers lansio fy Sioe Deithiol Ymgysylltu newydd ym mis Mehefin 2012, rwyf wedi siarad â dros 135 o wahanol grwpiau o bobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru ac wedi gwrando ar yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud. Mae hyn yn golygu fy mod wedi cael cysylltiad â dros 4,000 o bobl hŷn.

Rwyf wedi trefnu nifer o ddyddiau gwybodaeth mewn lleoliadau cymunedol, gan ddwyn ynghyd sefydliadau eraill sydd â'r nod o gefnogi pobl hŷn. Roedd y rhain hefyd yn gyfle i'r tîm roi cymorth uniongyrchol i bobl hŷn drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth o bob math.

Rwyf wedi sicrhau fy mod ar gael yn rhwydd i bobl hŷn, gan gydnabod yr amrywiaeth sydd ymysg pobl hŷn a hyd a lled y materion sydd o bwys iddyn nhw. Mae fy nhaflen graidd bellach ar gael mewn sawl iaith, gan gynnwys Urdu, Somali, Bengali a Guajarati, yn ogystal ag yn Gymraeg a Saesneg. Rwyf wedi bod yn cydweithio â Stonewall i feithrin gwell

dealltwriaeth o’r heriau sy’n wynebu pobl hŷn sy’n hoyw, yn lesbiaid ac sy’n ddeurywiol.

Mae'r lleisiau hyn i gyd wedi cyfrannu at lunio fy rhaglen waith ar gyfer Ebrill 2012 hyd fis Medi 2013 a'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013 - 2017 a gyhoeddwyd gennyf yn ddiweddar.

Rwyf wedi codi proffil y materion ehangach sydd o bwys i bobl hŷn yn y cyfryngau yn sylweddol drwy gyfrwng y radio, y teledu ac mewn papurau newydd yng Nghymru. Rwyf wedi manteisio i’r eithaf ar y cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i hanesion a phrofiadau pobl hŷn, gan gynnwys drwy fy nghylchlythyr, a gaiff ei gyhoeddi bob dau fis, drwy ymddangos ar y radio a'r teledu ar lefel leol a chenedlaethol, drwy ddefnyddio Twitter a drwy gyfrwng fy mlog wythnosol.

Rwyf wedi bod yn weithgar yn y cyfryngau lleol yn ysgrifennu erthyglau a llythyrau a hysbysebu fy sioe deithiol ymgysylltu mewn papurau lleol ac ar y radio lleol.  Rwyf wedi cynyddu fy mhresenoldeb mewn papurau Cymraeg yn ystod y flwyddyn.

### Cefnogaeth i unigolion

Mae fy staff wedi cyflawni’r targed a bennwyd gennyf sef  i roi cymorth i dros 1,000 o bobl hŷn, eu teuluoedd neu eu gofalwyr ac wedi eu helpu drwy roi cymorth, cyngor ac eiriolaeth unigol iddyn nhw - a hynny'n aml pan nad oedd unrhyw un arall yn gallu helpu.

Gall fy staff a minnau helpu unigolion hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn y ffyrdd canlynol:

- ymyrryd yn uniongyrchol os bydd rhywun hŷn yn cael trafferthion â darparwr gwasanaeth.
- rhoi gwybodaeth am wasanaethau mewn cymunedau lleol.
- cefnogi rhywun hŷn i wneud cwyn a monitro sut y delir â’r gŵyn honno.
- rhoi pobl hŷn mewn cysylltiad â'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys eu pryderon.
- ymyrryd yn uniongyrchol os bydd rhywun hŷn mewn perygl o niwed.
- rhoi gwasanaeth dwyieithog a rhoi cymorth i bobl y mae angen adnoddau hygyrch arnynt i ddefnyddio fy ngwasanaeth, megis ffôn testun.

Mae’r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu yn croesi ffiniau pleidiau a chredaf fod y ffaith bod gennym bellach lefarydd penodedig dros bobl hŷn ym mhob un o'r prif bleidiau gwleidyddol yn gam mawr ymlaen. Rwyf wedi ymgysylltu â gwleidyddion o bob un o’r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i sicrhau bod materion sydd o bwys i bobl hŷn yn cael lle blaenllaw ar eu hagendâu. Rwyf wedi rhoi gwybodaeth iddynt am fy rôl, fy rhaglen waith a barn pobl hŷn yng Nghymru, cyn trafodaethau a gwrandawiadau Pwyllgorau pwysig yn y Cynulliad.

## Edrych ymlaen

Ym mis Ebrill 2013, cyhoeddais fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu newydd am y 4 blynedd nesaf. Mae’r blaenoriaethau sydd o’n blaenau ar gyfer pobl hŷn, ac felly, i mi yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus
- Gwella ansawdd, argaeledd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd.
- Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol.
- Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a’u gwarchod
- Mynd i’r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar sail oedran.

Mae fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu yn nodi'r newid rwyf yn disgwyl ei weld dan bob blaenoriaeth, pa dystiolaeth o newid y byddaf yn chwilio amdani a'r rhan y byddaf fi yn ei chwarae yn y gwaith o gyflawni'r newid angenrheidiol.

## Adolygiad o Flwyddyn Ariannol 2012-13

Mae’r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant net o £1.964miliwn ar gyfer 2012-13 ar ôl incwm yswiriant (2011-12: £1.896miliwn).

Roedd £0.315miliwn yn y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (£0.547miliwn yn 2011-12). Rwyf yn bwriadu defnyddio elfen arian parod y cronfeydd wrth gefn hyn mewn modd effeithiol i gefnogi rhaglenni gwaith untro yn 2013-14 ac mewn blynyddoedd i ddod. Nodwyd hyn yn

fy Amcangyfrif i Weinidogion a roddwyd gerbron y Cynulliad ar 2 Ionawr 2013.

## Gweithio yn y Comisiwn

Daeth penodiad pedair blynedd Ruth Marks fel Comisiynydd i ben ar 20 Ebrill 2012. Cyflawnwyd swyddogaethau'r Comisiynydd a'r Swyddog Cyfrifyddu gan Sarah Stone, Dirprwy Gomisiynydd, o 21 Ebrill 2012 hyd nes i mi gychwyn yn y swydd ar 4 Mehefin 2012.

Yn ystod y flwyddyn cyflogais 27.11 o staff yn cyfateb i amser llawn ar gyfartaledd (25.42 yn 2011-12).

Roedd aelodau'r tîm rheoli uwch oedd yn gweithio â mi yn ystod 2012-13 yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| Sarah Stone | Dirprwy Gomisiynydd |
| Julia Lewis | Pennaeth Gwybodaeth ac Adnoddau |
| Alun Thomas | Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi |
| Alison Phillips | Pennaeth Cyllid, AD a Llywodraethu Corfforaethol |

Ym mis Ionawr 2013, lluniais achos busnes oedd yn pennu'r newidiadau oedd angen eu gwneud i strwythurau ar lefel uwch yn y sefydliad. O ganlyniad, newidiodd swyddogaeth ac aelodaeth y tîm rheoli uwch. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2013. Mae'r taliadau iawndal cysylltiedig â'r newidiadau hyn wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Taliadau.

Yn ystod 2012–13 roedd cyfradd absenoldeb salwch fesul pob aelod o staff ar gyfartaledd yn 9 diwrnod (11.44 diwrnod yn 2011-12). Mae hyn yn uwch nag y byddem yn ei ddymuno ac yn ymwneud ag un aelod o staff yn bennaf. Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr. Rhoddais Raglen Cymorth i Weithwyr ar waith ym mis Tachwedd 2012 ac mae hon ar gael i'r holl staff.

Mae'r sefydliad wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl a Gwobr Iechyd y Gweithle Bach mewn blynyddoedd blaenorol ac mae'n parhau i wneud cynnydd tuag at lefelau cyrhaeddiad uwch, gydag ailasesiadau wedi'u trefnu ar gyfer 2013-14. Cwblhaodd pum aelod o staff Dystysgrif Broffesiynol Uwch Lefel 7 BTEC mewn Ymarfer Ymchwilio.

## Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Taliadau a'r Cyfrifon.

## Cyfle Cyfartal

Rwyf wedi ymroi i gydraddoldeb cyfle ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Caiff pob cais ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail ei allu, ei gymwysterau a'i addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr yn derbyn triniaeth llai ffafriol ar sail oedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gwaith, ac ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn. Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith hefyd ar gael iddynt.

Rwyf wedi cyhoeddi fy Adroddiad Cydraddoldeb cyntaf a byddaf yn adeiladu ar hwn yn 2013-14. Mae copi o'r Cynllun Cydraddoldeb a'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar fy ngwefan.

## Cynaliadwyedd

Rwyf wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Dyma enghreifftiau o'r ffordd yr wyf yn gweithredu stiwardiaeth amgylcheddol da:

- Defnyddio ynni – fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfeydd bach modern, nid yw'n bosibl bod â rheolaeth lwyr dros y cyfleusterau dŵr, gwres a goleuo. Fodd bynnag, ceir falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau arbed ynni, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau yn amgylchedd y swyddfa.

- Defnyddio cerbydau – nid yw'r swyddfa'n rhedeg unrhyw gerbydau ond y mae'n annog defnyddio cerbydau wedi eu llogi ar gyfer teithiau hwy er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf. Anogir y staff i rannu cludiant ar gyfer teithiau swyddogol lle bo hynny'n ymarferol. Lle bynnag y bo'n briodol, anogir staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

- Rheoli papur - mae'r staff yn gallu cael gafael ar wybodaeth drwy ddefnyddio mewnrwyd y swyddfa sy'n golygu nad oes angen

systemau dosbarthu papur. Mae meddalwedd rheoli argraffu wedi cael ei osod yn 2012-13 i annog ymarfer gorau yn y swyddfa gyfan.

- Cynnyrch – anogir cyflenwyr i ddefnyddio nwyddau ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd. Rwyf yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn megis papur ac amlenni wedi eu hailgylchu.

- Gwaredu Gwastraff – mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu deunyddiau yn unol â system gasglu'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys papur, cardbord a rhai mathau o blastig. Mae trefniadau hefyd ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd.

  Ceir gwared â phapurau'n cynnwys gwybodaeth sensitif drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd yn ein deddfwriaeth alluogi. Mae gan y swyddfa dystysgrif cyflawniad amgylcheddol sy'n tystio i'n rhaglen rwygo ac ailgylchu arbed 37.1 o goed rhag cael eu dinistrio yn 2012 (24.4 yn 2011).

Wrth edrych tua'r dyfodol, rwyf yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Mae'n rhoi pwyslais ehangach o lawer ar gynaliadwyedd, gan gynnwys lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer ein cenhedlaeth ni, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; rwyf eisoes wedi ymgorffori'r egwyddorion allweddol hyn yn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2017.

## Polisi Taliadau

Rwyf yn bwriadu cydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y DU. Y targed yw gwneud taliadau o fewn telerau talu a gytunwyd neu cyn pen 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes dadl amdanynt am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn ar gyfartaledd yn 99.67**%** wedi'u talu ar amser (99.64% yn 2011-12). Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chwblhau'r cyfrifon hyn.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i fy nghefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol, a benodwyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gordon Lishman (Cadeirydd) | Hyd at 31 Mawrth 2014 |
| Kenneth Jones | Hyd at 31 Mawrth 2014 |
| Eifion Pritchard | Hyd at 31 Mawrth 2015 |
| Ian Summers | Hyd at 31 Mawrth 2015 |

## Trefniadau archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12 Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Y gost a gytunwyd am archwilio cyfrifon 2012-13 yw £14k.

Darparodd Deloitte wasanaethau archwilio mewnol i mi yn 2012-13. Yn dilyn proses dendro ym mis Chwefror 2013, mae eu contract wedi cael ei adnewyddu a bydd yn para tan 31 Mawrth 2016 gyda'r opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn arall.

## Datgelu Gwybodaeth Archwilio Briodol

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**16 Gorffennaf 2013**

# ADRODDIAD TALIADAU

## Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy’n pennu fy nghyflog, yn unol ag Atodlen 1(3) Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dan delerau’r penodiad hwn mae codiadau blynyddol yn dilyn y dyfarniad canran a wneir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Rwyf hefyd yn gymwys ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac rwyf wedi ymuno â'r cynllun hwnnw. Ni dderbyniodd y Comisiynydd gynnydd yn 2012-13.

Pennir cyflogau staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiynydd gennyf fi yn dilyn cynnal adolygiad cyflogau blynyddol sy’n asesu unrhyw newid sylweddol i’r rôl, eu cyfraniad at amcanion strategol y Comisiynydd, ac effaith y newid ar swyddi eraill yn y sefydliad ac asesiad o gyfraddau ehangach y farchnad ar gyfer swyddi tebyg mewn sefydliadau cymharol eraill.

Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol.

## Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff, ar delerau ac amodau a bennir gennyf fi, ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond cynhwysir hefyd ddarpariaethau ar gyfer amgylchiadau pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall. Mae’r egwyddorion hyn yn unol ag egwyddorion y Gwasanaeth Sifil. Nid yw’r staff yn aelodau o’r Gwasanaeth Sifil ond mae hawl ganddynt i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Oni nodir yn wahanol isod, mae’r staff a gwmpasir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau agored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau’r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu mecanweithiau i werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fesur ar lefel briodol ar bob cam o’u cyflogaeth gyda’r Comisiwn. Yn 2013, dechreuais weithredu rhaglen datblygu ar gyfer y sefydliad er mwyn cryfhau gallu a gwella perfformiad yn gyffredinol drwy gynhyrchiant uwch.

Byddai terfynu swydd, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai’r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Cyflogau a Hawliau Pensiwn

Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.
Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cyflogau a buddiannau pensiwn y Comisiynydd a staff uwch.

| Enw a theitl | Cyflog 2012-13 | Cyflog 2011-12 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31.03.13 | CETV ar 31/3/12 | CETV ar 31/3/13 | Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Ruth Marks**<br>**Comisiynydd**<br>Daeth ei chyfnod yn y swydd i ben ar 20/4/12 | 10 | 91 | 0 | 11 | 120 | 129 | 3 |
| **Sarah Rochira**<br>**Comisiynydd**<br>**Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 4/6/12** | 75 | Amh | 2 | 2 | 0 | 19 | 15 |
| **Sarah Stone**<br>Dirprwy Gomisiynydd<br>Comisiynydd Dros Dro<br>(21/4/12-3/6/12) | 120 | 67 | 2 | 7 | 60 | 86 | 17 |
| **Julia Lewis**<br>**Pennaeth Gwybodaeth ac Adnoddau** | 67 | 50 | 1 | 7 | 100 | 124 | 16 |

| Enw a theitl | Cyflog 2012-13 | Cyflog 2011-12 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31.03.13 | CETV ar 31/3/12 | CETV ar 31/3/13 | Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Alun Thomas**<br>**Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi** | 62 | 50 | 3 | 40 | 141 | 160 | 10 |
| **Alison Phillips**<br>**Pennaeth Cyllid, AD a Llywodraethu Corfforaethol** | 53 | 50 | 1 | 4 | 22 | 34 | 7 |

Y cyflogau yn y tabl uchod yw'r symiau a enillwyd yn y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys yr holl daliadau oedd yn daladwy gan gynnwys, lle'r oedd hynny'n berthnasol, taliadau iawndal fel y nodir isod. Nid ydynt yn cynnwys Yswiriant Gwladol na chyfraniadau Blwydd-dâl.

### Iawndal am golli swydd

Ym mis Ionawr 2013, lluniais achos busnes oedd yn pennu'r newidiadau oedd angen eu gwneud i strwythurau ar lefel uwch yn y sefydliad. Ceir crynodeb o hwn yn y Datganiad Llywodraethu. O ganlyniad, newidiodd swyddogaeth ac aelodaeth y tîm rheoli uwch. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2013. Yn sgil rhoi fy nghynigion ar waith, gwnaed y taliadau iawndal canlynol ar sail colli swydd:

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer y Pecynnau Diswyddo Gwirfoddol y cytunwyd arnynt | Nifer y Pecynnau Ymadael Gwirfoddol y cytunwyd arnynt | Nifer y taliadau ex gratia y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau |
|---|---|---|---|---|---|
| **£25k-£50k** | 0 | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Cost mewn £000oedd** | **0** | **£26k** | **£86k** | **£27k** | **£139k** |

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sy'n gynllun statudol a luniwyd dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael berthnasol. Lle y cytunais i daliadau ex gratia, diswyddo gwirfoddol ac ymadael yn gynnar, talais y costau o fy nghyllid fy hun, nid o'r Cynllun.

- Gadawodd Sarah Stone yn ôl telerau Diswyddo Gwirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Cafodd daliad iawndal statudol o £26k dan amodau'r PCPCS a thaliad ex gratia ychwanegol o £27k.

- Gadawodd Julia Lewis dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Cafodd daliad iawndal statudol o £37k.

- Gadawodd Alun Thomas dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Cafodd daliad iawndal statudol o £49k.

## Taliadau Canolrifol

| | 2012-13 £000 | | 2011-12 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Uchaf ei Gyflog (Y Comisiynydd) | 91 | Cyfarwyddwyr Uchaf ei Gyflog (Y Comisiynydd) | 91 |
| | **£** | | **£** |
| **Cyfanswm Tâl Canolrifol** | **31,184** | **Cyfanswm Tâl Canolrifol** | **28,285** |
| **Cymhareb** | **2.92** | **Cymhareb** | **3.22** |

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad â thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Roedd tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £91,048 yn 2012-13 (2011-12: £91,048). Roedd hwn 2.92 gwaith (2011-12: 3.22) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £31,184 (2011-12: *£28,285).*

Mae'r taliad yn cynnwys cyflog yn unig ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau. Nid yw'r ffigurau ar gyfer y cyfrifiad hwn yn cynnwys unrhyw symiau iawndal am golli swydd na thaliadau a wnaed yn lle rhybudd.

Yn 2012-13, cafodd un cyflogai (dim un yn 2011-12) daliad o £120k sy'n fwy na rôl y Comisiynydd. Eglurir hyn gan y taliadau ychwanegol a wnaed yng nghyswllt diswyddiad gwirfoddol fel y nodwyd ar dudalennau 15-17. Byddai defnyddio'r taliad hwn fel yr un sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn rhoi cymhareb o 3.85 ar gyfer 2012-13.

Yn 2012-13, ni fu unrhyw newid i bolisi na graddfeydd cyflog y sefydliad. Roedd taliadau wedi'u seilio ar y graddfeydd cyflog oedd yn amrywio rhwng £15,750 a £71, 275 (2011-12 - rhwng £16,538 a £67,240).

Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol i gyflogau staff eraill yn unol â thelerau ac amodau contractau. Ni ddyfarnwyd cynnydd yn unol â chwyddiant neu gostau byw yn 2012-13 nac yn y ddwy flynedd cyn hynny i unrhyw staff gan gynnwys y Comisiynydd.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETVs)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actiwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y maent wedi eu cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid yn unig eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y

Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

### Gwir gynnydd yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Pensiynau

Darperir fy muddion pensiwn i a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr ond ni allaf nodi fy nghyfran i o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Gellir canfod y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2012-13, roedd cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7% i 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar bedwar band cyflog. Bydd Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2012-13 i'w talu pan fydd aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig: naill ai cynllun cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu clasurol a mwy): neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais yn y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn

partneriaeth). Pennir cyfraniadau'r gweithiwr ar gyfradd o 1.5% i 3.9% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol, a 3.5% i 5.9% ar gyfer y premiwm, y clasurol a mwy a nuvos. Mae'r cynydd i gyfraniad y gweithiwr yn gymwys o 1af Ebrill 2013. Mae'r budd-daliadau o dan y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Ar gyfer Premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun Clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae Clasurol a Mwy yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun Clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun Premiwm.

Yn Nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31ain Mawrth) bydd cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn unol â deddfwriaeth cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (marw tra'n dal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd neu dros oed pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy, a 65 ar gyfer aelodau nuvos. Gellir cael manylion pellach am y trefniadau PCSPS ar y wefan www.civilservice.gov.uk/ pensions.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**16 Gorffennaf 2013**

## DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru.

Paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y gwariant net, y sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol imi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon, a
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Fel y Comisiynydd, yr wyf, yn rhinwedd paragraff 11 atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer fy swydd. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, a thros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau'r Comisiwn, yn cael eu nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU

Mae’r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; y ffordd y caiff ei lywodraethu a’i reoli; a sut yr wyf yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol dan Adran 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma swyddogaethau’r swydd:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a chael gwared â gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy’n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae’r fframwaith llywodraethu’n nodi’r ffordd y mae’r sefydliad yn cael ei lywodraethu a’i reoli. Mae’n cynnwys y systemau a’r prosesau sydd yn eu lle, y mae’r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a’i reoli drwyddynt. Mae hefyd yn cynnwys gwerthoedd a diwylliant y sefydliad.

Mae’r fframwaith llywodraethu yn golygu fy mod yn gallu monitro perfformiad y sefydliad yn erbyn f'amcanion strategol. Yn benodol, i bwyso a mesur a yw'r perfformiad hwnnw wedi arwain at ganlyniadau gwell i bobl hyn yng Nghymru ac a yw’r canlyniadau hynny wedi'u cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae’r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o’r fframwaith hwnnw ac fe’i lluniwyd i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig.

Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i:

- nodi a blaenoriaethu rheoli risgiau a chyfleoedd wrth geisio cyflawni fy nodau a’m hamcanion,
- pwyso a mesur pa mor debygol yw’r risgiau a'r cyfleoedd hynny o ddigwydd a’u heffaith pe baent yn digwydd, a hefyd

- eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

## Fframwaith llywodraethu

Mae'r Comisiynydd yn Gorfforaeth Unigol; felly nid oes Bwrdd fel y byddai rhywun yn ei weld gyda chyrff cyhoeddus eraill. Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn dal cyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli'r Comisiwn ond gall awdurdodi i unrhyw aelod o staff weithredu ei swyddogaethau.

Gall dirprwy a enwyd gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na all y Comisiynydd weithredu am unrhyw reswm. Wedi terfyn tymor Ruth Marks yn y swydd ar 21 Ebrill 2012, cyflawnwyd swyddogaethau'r Comisiynydd gan Sarah Stone, gan gynnwys cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, hyd nes i mi gychwyn yn y swydd ar 4 Mehefin 2012.

Roedd tair prif elfen i fy fframwaith llywodraethu yn 2012-13, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- Darparwr Archwiliad Mewnol.
- Uwch dîm rheoli

Mae gennyf **Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** i fy nghefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Oherwydd statws y Comisiynydd fel Corfforaeth Unigol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod absenoldeb bwrdd gweithredol (y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel arfer wedi'i ddewis ohono) wedi creu "bwlch gwybodaeth" i'r aelodau gan nad oes ganddynt gyfrifoldebau a goruchwyliaeth ehangach. Mae'r Pwyllgor wedi goresgyn y blwch hwn yn rhannol oherwydd eu gwaith cynghori ychwanegol a hefyd drwy drafodaethau ychwanegol gyda mi a chyflwyniadau gan fy staff a minnau ar ben cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol gyda phrofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru a'r DU. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac roedd presenoldeb llawn yng nghyfarfodydd 2012-13.

Dolen i'r wefan: http://www.olderpeoplewales.com/wl/about/the-team/audit.aspx

Bob blwyddyn mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu adroddiad blynyddol i mi sy'n crynhoi gwaith y Pwyllgor. O ganlyniad i'w waith yn 2012-

13, mae’r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol yr archwilio mewnol ac allanol. O ran fy nhrefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol ehangach a’r prosesau canfod risg a rheolaeth, mae’r Pwyllgor o’r farn, ar sail canfyddiadau’r archwilwyr a’i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu sicrwydd da iawn imi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn rhai priodol a’u bod wedi bod yn gweithredu’n effeithiol.

Rwyf wedi penodi Deloitte i ddarparu **gwasanaethau archwiliad mewnol.** Yn ystod 2012-13 cynhaliodd Deloitte adolygiadau ar lywodraethu, rheoli risg, systemau ariannol, rheolyddion TG, a rheoli achosion; gan ddarparu lefelau llawn neu sylweddol o sicrwydd ym mhob maes. Bu i’r cwmni hefyd fynd ar drywydd y cynnydd a fu yng nghyswllt gweithredu argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ystod 2012-13, bûm yn cydweithio ag **uwch dîm rheoli** fel y nodwyd yn yr Adroddiad Taliadau. Roedd y tîm yn cyfarfod yn fisol ac yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau mewn modd sy’n gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a’r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus h.y. yn gyson â’r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy’n cael ei gyllido’n gyhoeddus.

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddais gynigion i ailstrwythuro a daeth y rhain i rym ar 1 Ebrill 20143. Roedd pum nod clir i'r ailstrwythuro, sef:

- sicrhau strwythur rheoli sy’n pennu cyfeiriad strategol cryf a llinellau atebolrwydd clir ac sy’n gwella perfformiad y sefydliad yn ei gyfanrwydd.
- sicrhau bod gan y sefydliad strwythur syml ac effeithlon sy’n defnyddio adnoddau, ac yn eu dyrannu, yn y modd mwyaf effeithiol posib, gan adlewyrchu cymesuredd blaenoriaethau priodol y sefydliad.
- sicrhau bod pob rôl, cyfrifoldeb a gweithgarwch yn glynu’n gaeth wrth flaenoriaethau busnes a thargedau gweithredol cyflawnadwy’r sefydliad a bod busnes y sefydliad yn cael ei gyflawni o fewn fframwaith rheoli perfformiad cadarn ac effeithiol.
- sicrhau bod gan y sefydliad weithlu hyblyg, deinamig sy’n llawn cymhelliant sy’n meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, y priodoleddau a’r cymwyseddau priodol i gyflawni amcanion busnes cytunedig y sefydliad a bod y rhain yn cael eu cyfatebu i gymwyseddau, cyfrifoldebau a rolau.
- sicrhau bod y sefydliad, nid yn unig yn gallu cyflawni’r rhaglen waith a gyhoeddwyd ganddo ond bod ganddo hefyd y cymwyseddau a’r sgiliau

sefydliadol angenrheidiol i addasu i amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym, a hynny gan greu cyn lleied â phosib o anhrefn.

O ganlyniad, newidiodd swyddogaeth ac aelodaeth y tîm rheoli uwch. Rwyf wedi penodi i bedair swydd Cyfarwyddwr Strategol newydd a fydd yn adrodd yn ôl i mi, a bydd deiliaid y swyddi hyn yn ffurfio tîm rheoli strategol newydd o 1 Ebrill 2013 ymlaen. Fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer y tîm rheoli strategol newydd rhoddwyd rhaglen datblygu sefydliadol helaeth ar waith ym mis Ebrill 2013 i gefnogi'r unigolion a benodwyd yn y gwaith o gyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-17.

## Perfformiad y Comisiynydd

2012-13 oedd blwyddyn olaf y Cynllun Strategol blaenorol (2010-13). Dyma oedd prif amcanion y cynllun hwnnw:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a chael gwared â gwahaniaethu yn eu herbyn
- Annog ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- Galluogi cyflawni swyddogaethau mewn ffyrdd sydd yn briodol a rheolaidd, yn ddoeth ac yn economaidd, gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a chanfod a rheoli risgiau.

Cyhoeddais fy Rhaglen Waith ym mis Medi a'i rhoi ar fy ngwefan. Ynddi rwyf yn esbonio'n glir yr hyn rwyf yn bwriadu ei wneud. Byddwn yn nodi'r cerrig milltir canlynol fel tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hyn a nodau ar gyfer y dyfodol, sef:

- Cyhoeddi adroddiad oedd yn cynnwys argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth yng Nghymru, a fyddai'n golygu bod mwy o bobl hŷn yn gallu arfer mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.
- Cyhoeddi asesiad ffurfiol o'r camau y mae'r GIG yng Nghymru yn eu cymryd mewn ymateb i argymhellion y Comisiynydd yn "Gofal gydag Urddas?"

- Dod â chlinigwyr, rheolwyr a chleifion at ei gilydd i rannu arferion da yng nghyswllt triniaeth i bobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru.

- Cyhoeddi gwaith ymchwil oedd yn tynnu sylw at ba mor anodd y gall hi fod i'r bobl hynny sy'n gweithio ym maes gwasanaethau gofal i fynegi pryder ynghylch y ffordd mae pobl hŷn yn cael eu trin.

- Sefydlu Bwrdd Partneriaeth i gryfhau hyder ymysg y rheiny sy'n gofalu am bobl hŷn y gweithredir ar eu pryderon er mwyn diogelu pobl hŷn yn well rhag niwed ac esgeulustod.

- Rhoi her i Awdurdodau Lleol yng Nghymru i wella eu perfformiad yng nghyswllt prosesu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Gofyn am dystiolaeth gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol eu bod wedi ystyried effaith newidiadau i wasanaethau ar bobl hŷn a bod ganddynt gynlluniau i roi sylw i'r effaith honno yn ogystal â sicrhau bod newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried a'u cyfleu yn effeithiol.

- Sefydlu Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru sy'n cynnwys pobl sy'n gallu creu'r newid sy'n angenrheidiol i wneud Cymru'n lle gwych i dyfu'n hŷn ynddo, nid dim ond i rai, ond i bawb.

- Sicrhau bod gan bob un o'r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru rhywun wedi'i enwebu i hyrwyddo materion pobl hŷn.

- Ymgysylltu a phobl hŷn ledled Cymru a defnyddio eu hanesion personol nhw fel sail ar gyfer datblygu Cynllun Strategol nesaf y Comisiynydd sef Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2017.

Adroddir ar berfformiad yn erbyn amcanion y cynllun hwn yn Adroddiad y Comisiynydd sy'n cael ei ystyried fel arfer gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad. Ceir crynodeb o'r perfformiad ariannol yn y cyfrifon blynyddol ar dudalen 9.

Dolen i wefan: http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/strategic-docs.aspx
Dolen i wefan: http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/annual-reports.aspx

## Agwedd tuag at risg

Rwyf wedi adolygu ac atgyfnerthu fy Fframwaith Risg yn ystod y flwyddyn, sydd â'r nod o gyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddo diwylliant mwy arloesol, llai awyddus i osgoi risg lle yr anogir ac y rheolir cymryd risgiau wedi'u mesur a'u rheoli wrth chwilio am gyfleoedd fydd o fudd i'r Comisiynydd;

- Gwella perfformiad y sefydliad drwy lywio a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio;

- Darparu sail gadarn ar gyfer rheoli risg integredig a rheolaeth fewnol fel rhan o lywodraethu corfforaethol da; a

- Sicrhau amgylchedd diogel i staff weithio ynddo.

Mae gan holl staff y sefydliad beth cyfrifoldeb dros reoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn cyflawni eu hamcanion unigol a fy nodau a'm hamcanion innau.

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu y byddaf nid yn unig yn ystyried y risg o bethau'n mynd o chwith, ond effaith peidio â chymryd cyfleoedd neu beidio ag elwa ar gryfderau corfforaethol yn ogystal.

Rwyf yn cydnabod bod y sefydliad yn wynebu risgiau rydym yn gwybod amdanynt a fyddai, pe byddent yn cael eu hanwybyddu, yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i fodloni f'amcanion strategol. Rwyf wedi nodi'r meysydd risg corfforaethol canlynol sy'n cyd-fynd â fy mhedwar prif faes busnes corfforaethol, sef:

- **Adnoddau; pobl ac arian;**
  Rhaid i'r gwaith a wnaf ddangos effaith yn effeithiol (enillion ar y buddsoddiad) a rhaid imi ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i mi yn effeithlon ac yn ddarbodus.

- **Llywodraeth; rheoleidd-dra a fframwaith cyfreithiol;**
  Rhaid i mi gydymffurfio â safonau llywodraethu cydnabyddedig, a gweithio o fewn fy fframwaith cyfreithiol a rheoleidd-dra.

- **Enw da a chefnogaeth rhanddeiliaid;**
  Rhaid i mi sefydlu Rhaglen Waith a strategaeth effeithiol i warchod enw da a dylanwad swyddogaeth y Comisiynydd ac i sicrhau nad yw rhanddeiliaid yn colli hyder yng ngwerth ac effaith fy ngwaith a phwrpas fy rôl.

- **Perfformiad a chyflawniad busnes.**

Mae fy Rhaglen Waith yn adlewyrchu cymhlethdod yr amgylchedd gweithredol rwyf yn gweithio ynddo ac yn cynnwys cyfleoedd newydd a chyfleoedd posibl.

Mae rheoli risgiau o'r fath yn ystyriaeth allweddol wrth gyflawni fy ngweithgareddau ac yn cynnwys yr elfennau allweddol a ganlyn:

- Polisi rheoli risg sydd ar waith ac sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2012-13. Mae'r polisi hwn yn nodi ar gyfer yr holl staff sut y bydd y risgiau a'r cyfleoedd a wynebir gan y sefydliad yn cael eu canfod, eu gwerthuso, eu monitro a'u rheoli.
- Mae'r polisi rheoli risgiau yn galw am gynnal cofrestr risg, sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru gennyf fi. Adolygwyd ac atgyfnerthwyd fformat adrodd y gofrestr risg yn ystod y flwyddyn.
- I fod yn effeithiol, rhaid i reoli risg fod wedi'i wreiddio yn y broses o reoli a chynllunio fy ngwaith o ddydd i ddydd. Mae pob risg a ganfyddir yn eiddo i aelod o'r tîm rheoli strategol ac mae'r gofrestr risg ar gael i'r holl staff ar y system fewnrwyd.
- Dull gweithredu cadarn o ran llywodraethu a rheolaeth fewnol; gweithio gydag archwilio mewnol i adolygu a chryfhau trefniadau presennol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y broses o ganfod a rheoli risgiau. Mae'n cael ac yn ystyried holl adroddiadau ac argymhellion yr archwilwyr allanol a mewnol gan gynnwys adolygiad blynyddol yr archwilwyr mewnol o'r trefniadau rheoli risg.
- Polisïau a gweithdrefnau ariannol, sy'n nodi cyfrifoldebau dros faterion ariannol gan gynnwys caffael, systemau ar gyfer rheolaeth ariannol ar wariant yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd ar wir wariant yn erbyn cyllidebau.
- Rhoddwyd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch y wybodaeth sydd gen i. Mae hyn yn cynnwys data personol a ddelir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Ni chafwyd unrhyw achosion o dorri diogelwch data yn 2012-13.
- Rwyf fi a fy staff yn llofnodi ac yn ymrwymo i God Ymddygiad bob blwyddyn sy'n cynnwys saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ac rwyf wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y ffordd rwyf yn cyflawni fy ngwaith.

- Os digwydd i fy staff neu eraill fynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i ymdrin â hyn sy'n cynnwys Polisi Cwynion a Pholisi Codi Pryderon. Mae’r dogfennau hyn wedi'u cyhoeddi ar fy ngwefan.

- Yn ystod 2012-13, derbyniais 2 gŵyn dan y Polisi Cwynion; ni chadarnhawyd y cwynion hyn (2011/12: 1 gŵyn). Yn ystod 2012-13, daeth 8 cais am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i law (2011/12: 4 cais) ac 1 cais dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (2011/12: 1 cais). Rhoddir gwybod i fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am y wybodaeth hon.

### Adolygiad o effeithiolrwydd

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, a chaiff hwn ei lywio gan waith yr archwiliad mewnol, yr uwch dîm rheoli, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) fel y’u cynhwysir yn y llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Cynghorir fi hefyd ar oblygiadau canlyniadau f’adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn ystod y flwyddyn gwnaed cynnydd o ran cryfhau’r systemau rheoli mewnol, symudwyd ymlaen a gweithredwyd ar argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol. Mae cynlluniau yn eu lle hefyd i roi sylw i argymhellion newydd a sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau.

Mae barn yr archwilwyr mewnol yn nodi, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013, bod gennyf system rheolaeth fewnol gadarn yn y bôn, a ddylai roi sicrwydd sylweddol o ran cyflawni f’amcanion.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sydd wedi'i rhoi yn y datganiad llywodraethu hwn. Casgliad f'adolygiad yw bod y gweithdrefnau a’r strwythurau rheolaeth fewnol a llywodraethau cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a f'amcanion a'u bod wedi gweithio'n effeithiol drwy 2012-13.

Mae’r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod yn ei le am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad llofnodi’r cyfrifon hyn, ac fe’i paratowyd yn unol â chanllawiau’r Trysorlys.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**16 Gorffennaf 2013**

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013**

| | Nodyn | 2012/13<br>£ 000 | 2011/12<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,382 | 1,086 |
| Dibrisiant / Amorteiddiad | 3 | 140 | 96 |
| Gwariant arall | 3 | 525 | 714 |
| | | 2,047 | 1,896 |
| **Incwm** | | | |
| Derbyniadau yswiriant * | | 83 | - |
| **Cyfanswm Gwariant Net Cynhwysfawr** | | 1,964 | 1,896 |

Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2012-13 na 2013-14.

*Ym mis Ebrill 2012, digwyddodd gryn ddifrod i ran o'r adeiladau swyddfa sydd ar brydles gan y Comisiynydd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod dŵr wedi gollwng yn rhan arall o'r bloc swyddfeydd a rennir. Roedd y gwaith atgyweirio'n destun hawliad yswiriant. £83k yw cyfanswm y costau adnewyddu a ad-dalwyd gan y cwmni yswiriant; mae £75k o hwn yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf ac mae £8k yn wariant refeniw.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

## Fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2013

| | | | 31 Mawrth 2013 | | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £ 000 | £ 000 | £ 000 | £ 000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Gwelliannau prydles | **4** | 0 | | 56 | |
| Offer swyddfa / TGCh | **4** | 7 | | 18 | |
| Asedau anniriaethol | **5** | 6 | | 11 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | 13 | | 85 |
| | | | | | |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | **7** | 39 | | 39 | |
| Arian a chyfwerth ag arian | **8** | 546 | | 553 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | 585 | | 592 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 598 | | 677 |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy | **9** | 77 | | 29 | |
| Rhwymedigaethau eraill | **9** | 146 | | 41 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | 223 | | 70 |
| | | | | | |
| **Asedau anghyfredol a/llai asedau/rhwymedigaethau cyfredol net** | | | 375 | | 607 |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | **10** | | 60 | | 60 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | 60 | | 60 |
| | | | | | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **315** | | **547** |
| | | | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | | |

Mae'r nodiadau ar dudalennaus 35 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

| | | |
|---|---|---|
| Arian wrth gefn cyffredinol | 315 | 547 |
| | **315** | **547** |

**16 Gorffennaf 2013**

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu**

# Datganiad Llif Arian

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

| | Nod yn | 1 Ebrill 2012 - 1 Mawrth 2013 £ 000 | 1 Ebrill 2011 - 31 Mawrth 2012 £ 000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl llog a derbyniadau yswiriant | | (1,964) | (1,896) |
| Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol | **3** | 140 | 96 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad – symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **7** | - | 2 |
| Cynnydd/(gostyngiad) – symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **9** | 153 | (12) |
| Colled ar Waredu Offer | **3** | 16 | - |
| Darpariaethau | **10** | - | 54 |
| **All-lif arian o weithgareddau gweithredu** | | **(1,655)** | **(1,756)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **4** | (76) | (5) |
| Prynu asedau anniriaethol | **5** | (8) | - |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | - | - |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(84)** | **(5)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,732 | 1,747 |
| **Cyllid net** | | **1,732** | **1,747** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net – symiau cyfwerth ag arian am y cyfnod** | | **(7)** | **(14)** |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod** | **8** | **553** | **567** |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar derfyn y cyfnod** | **8** | **546** | **553** |

Mae'r nodiadau ar dudalennaus 35 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad newid yn Ecwiti Trethdalwyr

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013**

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | |
|---|---|---|
| | **1 Ebrill 2012-31 Mawrth 2013** | **1 Ebrill 2011-31 Mawrth 2012** |
| | **£ 000** | **£ 000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **547** | **696** |
| Gwariant net | (1,964) | (1,896) |
| **Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig** | **(1,417)** | **(1,200)** |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,732 | 1,747 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **315** | **547** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Datganiad polisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a farnwyd yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau anghyfredol.

1.2 Asedau anghyfredol

Cynhwysir asedau anghyfredol ar eu cost, oherwydd, ym marn y Comisiynydd, byddai unrhyw addasiad yn codi o ailbrisio yn amherthnasol. Mae pob ased anghyfredol yn eiddo i'r Comisiynydd.

1.3 Asedau Anghyfredol Diriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol diriaethol yw £1,000 gan gynnwys TAW anadferadwy. Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles. Nid yw asedau anghyfredol diriaethol eraill wedi'u hailbrisio oherwydd, ym marn y Comisiynydd, ni fyddai'r symiau dan sylw'n berthnasol.

1.4 Asedau Anghyfredol Anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (4 blynedd fel arfer).

1.5 Dibrisiant / Amorteiddiad

Darperir Dibrisiant/Amorteiddiad ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau anghyfredol diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif.

Maes cyfnodau oes asedau fel arfer fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer cysylltiedig â TGCh | 4 blynedd |

1.6 Incwm, cyllid a gwariant

Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru ar ffurf grant blynyddol.

Ym mis Ebrill 2012, cafwyd cryn ddifrod i swyddfa'r Comisiynydd ac roedd y gwaith atgyweirio yn destun hawliad yswiriant. Ad-dalwyd y costau adnewyddu gan y cwmni yswiriant ac mae'r rhain wedi'u dangos fel incwm. Dangosir arian a ddaeth i law o gostau secondiad i'r tu allan fel costau cysylltiedig â staff.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd ar waith yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr a nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan fod TAW yn anadferadwy.

1.7 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

1.8 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'n gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice.gov.uk/ pensions).

1.9 Tâl Prydlesau Gweithredol
Mae rhenti sy’n daladwy dan brydlesau gweithredol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod perthnasol.

1.10 Darpariaethau
Mae’r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o’r gwariant sydd ei angen i setlo’r ymrwymiad.

1.11 Arian a chyfwerth ag arian
Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân hefyd yn swyddfa'r Comisiynydd.

## 2. Nifer y staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2012/13<br>£ 000 | 2011/12<br>£000 |
|---|---|---|
| **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | | |
| Cyflogau | 1,098 | 852 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 68 | 66 |
| Costau Pensiwn Eraill | 161 | 157 |
| **Is-gyfanswm** | **1,327** | **1,075** |
| Costau secondiadau i mewn ac asiantaeth | 59 | 11 |
| Llai arian a geir yn sgil secondiad i'r tu allan | (4) | - |
| **Cyfanswm costau net** | **1,382** | **1,086** |

Mae £16,158 (2011/12; £10,646) wedi'i gynnwys yn y Cyflogau sy'n ymwneud â thaliadau i bedwar aelod y Pwyllgor Archwilio. Yn 20112/13 rhoddwyd taliadau ychwanegol i Ken Jones am waith pellach yng nghyswllt yr agweddau Dementia a Gofalwyr ar Raglen Waith 2012-13. Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 3 Rhaglenni Penodol.

Mae Cyflogau hefyd yn cynnwys taliadau a wnaed i 3 aelod o staff fel rhan o waith ailstrwythuro'r Comisiynydd; gan gynnwys iawndal am golli swydd. Dangosir yr iawndal am golli swydd yn llawn yn yr Adroddiad Taliadau.

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth â llawn-amser a gyflogwyd gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch reolwyr) fel a ganlyn:

| | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 21.39 | 21.84 |
| Staff ar Secondiad | 0.66 | 0.08 |
| Staff Achlysurol/Dros Dro | 0.49 | 0.25 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 4.57 | 3.25 |
| **Cyfanswm** | **27.11** | **25.42** |

**Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**
Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (**PCSPS**) yn gynllun buddion diffiniedig sawl-cyflogwr nas cyllidir ond ni all y Comisiynydd nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Gellir canfod y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r **Cabinet Office**: Pensiwn Sifil (www.civilservice.gov.uk/ pensions).

Ar gyfer 2012/13, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £160k (2011-12: £157k) yn daladwy i'r **PCSPS** ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7% i 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost buddiannau sy'n cronni yn ystod 2011-13 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i rai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £1k eu talu i un o'r panel o dri darparwr pensiynau rhanddeiliaid sydd wedi'u penodi.

Mae Cyfraniadau'r Cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran, ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £1k, 0.8% o gyflog pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd iechyd gwael yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

Ni fu i neb ymddeol yn gynnar oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Comisiynydd wedi gwneud taliadau diswyddo yn ystod y flwyddyn fel y datgelwyd yn yr Adroddiad Taliadau.

### 3. Gwariant Arall

Mae gwariant arall yn cynnwys:

| | 2012/13<br>£000 | 2011/12<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhenti dan brydlesau gweithredol | 59 | 62 |
| Costau llety eraill | 68 | 58 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 9 | 22 |
| Ffioedd proffesiynol | 55 | 49 |
| Hyfforddiant a datblygu | 35 | 25 |
| Teithio a chynhaliaeth | 21 | 15 |
| Ffioedd Archwilio – Archwilio Mewnol | 11 | 11 |
| Ffioedd Archwilio – Archwilio Allanol | 14 | 14 |
| Darpariaeth ar gyfer ailaddurno eiddo | - | 58 |
| Rhaglenni Penodol | 114 | 294 |
| Costau gweinyddol eraill | 123 | 106 |
| | **509** | **714** |
| Eitemau anariannol: | | |
| Colled wrth waredu | 16 | - |
| Dibrisiant* | 127 | 73 |
| Amorteiddiad | 13 | 23 |
| **Cyfanswm** | **665** | **810** |

*****Mae'r asedau hynny a adnewyddwyd yn sgil difrod yn dilyn llifogydd wedi cael eu dibrisio’n llawn o fewn y flwyddyn yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

**Rhaglenni Penodol**

Yn ystod y flwyddyn cafodd y Comisiynydd y gwariant canlynol gyda'r rhaglen sydd wedi'i ddosbarthu yn erbyn amcanion y Comisiwn, fel y'u nodwyd yng Nghynllun Strategol 2010-13.

Nid yw'r gwariant a ddatgelir yn cynnwys unrhyw ddosrannu ar gostau cyflogau staff y Comisiynydd, ac mae'n adlewyrchu costau ychwanegol uniongyrchol yn unig.

| **Rhaglenni** | **2012/13 £000** | **2011/12 £000** |
|---|---|---|
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru | 53 | 111 |
| Hyrwyddo darparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a chael gwared â gwahaniaethu yn eu herbyn | 5 | 42 |
| Annog ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru. | 29 | 68 |
| Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru | 9 | 14 |
| Galluogi gweithredu swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n briodol a rheolaidd, gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a chanfod a rheoli risgiau | 18 | 59 |
| **Cyfanswm** | **114** | **294** |

## 4. Asedau Anghyfredol Diriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth £000 | Gwelliannau Prydles £000 | Offer Swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 37 | 268 | 41 | 346 |
| Ychwanegiadau* | 1 | 72 | 3 | 76 |
| Gwarediadau | - | 71 | 3 | 74 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 38 | 269 | 41 | 348 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 31 | 212 | 29 | 272 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 6 | 113 | 8 | 127 |
| Gwarediadau | - | 56 | 2 | 58 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 37 | 269 | 35 | 341 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **1** | **0** | **6** | **7** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2012 | **6** | **56** | **12** | **74** |

Nid amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost a ystyrir yn 'werth teg'.

*****Ym mis Ebrill 2012, cafwyd cryn ddifrod i ran o'r adeiladau sydd ar brydles gan y Comisiynydd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod dŵr wedi gollwng yn rhan arall o'r bloc swyddfeydd a rennir. Roedd y gwaith atgyweirio'n destun hawliad yswiriant. £83k yw cyfanswm y costau adnewyddu a ad-dalwyd gan y cwmni yswiriant; mae £75k o hwn yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf ac mae £8k yn wariant refeniw.

## 5. Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 46 | 45 | 91 |
| Ychwanegiadau | - | 8 | 8 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 46 | 53 | 99 |
| | | | |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 46 | 34 | 80 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | - | 13 | 13 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 46 | 47 | 93 |
| | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **0** | **6** | **6** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2012 | **0** | **11** | **11** |

## 6. Offerynnau ariannol

Gan y cwrddir â gofynion arian y Comisiynydd drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliannau ac offerynnau ariannol eraill) yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg a fyddai’n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae’r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio, ac felly nid yw’r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na’r farchnad.

## 7. Symiau masnach derbyniadwy

| | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| | **£ 000** | **£000** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 7 | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 32 | 39 |
| | 39 | 39 |

Nid oedd unrhyw symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

## 8. Arian a chyfwerth ag arian

| | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| | **£ 000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 553 | 567 |
| Newid net mewn balansau arian a chyfwerth ag arian | (7) | (14) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **546** | **553** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 493 | 512 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 53 | 41 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **546** | **553** |

## 9. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2012/13 £000 | 2011/12 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 59 | 23 |
| Symiau masnach taladwy | 18 | 6 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 146 | 41 |
| | **223** | **70** |

Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill yn daladwy ar ôl mwy nag un flwyddyn

## 10. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2012/13 £000 | 2011/12 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 60 | 6 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 58 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | - | 4 |
| Balans ar 31 Mawrth | **60** | **60** |

Gwneir darpariaeth ar gyfer ailaddurno/dadfeiliadau yn ein swyddfeydd yn ystod tymor y brydles ac ar derfyn y brydles. Adolygwyd y ddarpariaeth hon yn ystod 2012-13 fel sy'n ofynnol dan IAS 37 ac ni ystyrir bod angen gwneud unrhyw newid.

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2012/13 £000 | 2011/12 £000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf ar gontract ar 31.03.13 na wnaed darpariaeth ar eu cyfer | - | - |

## 12. Ymrwymiadau dan brydlesi

### (a) Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pryd y daw'r brydles i ben.

| | 2012/13<br>£000 | 2011/12<br>£000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 21 | - |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd* | 125 | 82 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **146** | **82** |

*Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar gytundeb prydles newydd am gyfnod o 5 mlynedd o 5 Awst 2013 ymlaen.

| | 2012/13<br>£000 | 2011/12<br>£000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Arall: Offer Swyddfa | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | - | - |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd | 1 | 1 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **1** | **1** |

### (b) Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes unrhyw rwymedigaethau dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2011/12; dim).

Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo nad ydynt yn brydlesi neu'n gontractau PFI (2011/12; dim).

## 13. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn (2011/12; dim).

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2012/13 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1.732M gan Lywodraeth Cymru (2011/12: £1.747M). Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ogystal mae'r Comisiynydd wedi cael nifer bychan o drafodion gyda chyrff eraill a noddir neu a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2012/13 ni fu’r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o’r Uwch Dîm Rheoli, nac unrhyw aelod o’u teulu’n ymwneud yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda’r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, ac eithrio’r hawliadau treuliau a’r taliadau cyflog arferol.

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chwblhau’r cyfrifon hyn.

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

### Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y cyfnod yn diweddu 31.03.13 dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir yn yr adroddiad hwnnw iddo gael ei archwilio.

### Cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am baratoi'r Sylwadau Rheoli, yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dani i sicrhau cysondeb trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad taliadau sydd i'w archwilio'n unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a chyda'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, mae gofyn i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol y gwnaed y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Sylwadau Rheoli i ganfod anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, rwy'n ystyried yr oblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2013 a'i gwariant net, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- eu bod wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; a

- bod yr wybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol, a gynhwysir yn y Sylwadau Rheoli a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau nas archwiliwyd, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**23 Gorffennaf 2013**